# GWASANAETH CA3

## THEMA: CYMUNED

## LLEFARU

Ar gyfer y gwasanaeth hwn bydd angen tua 6 llefarydd, ond gall yr union nifer ddibynnu ar faint o ddisgyblion sydd ar gael i gymryd rhan. Awgrym yn unig felly yw'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ei osod allan – gellir cynnwys mwy neu lai o lefarwyr, gan uno neu wahanu darnau o'r sgript.

## ELFEN GERDDOROL

Mae'n debyg y bydd gan bob ysgol drefn wahanol o gynnwys deunydd cerddorol wrth ymgynnull mewn gwasanaeth neu gyfarfod boreol. Os yw'n arferol dewis emyn o blith taflen emynau'r ysgol, yna gellir dewis un ar thema **perthyn/ bod yn rhan o gymuned/ cariad at wlad**. Fel arall gellir dewis chwarae neu berfformio elfen gerddorol addas yn ôl dewis yr athro.

Llefarydd 1: Wrth gerdded i mewn trwy ddrysau'r ysgol hon heddiw, tybed beth oedd eich meddyliau chi? Efallai eich bod yn mwynhau'r teimlad o fod 'nôl y bore yma eto mewn cymuned gyfarwydd yng nghanol eich ffrindiau. Neu efallai eich bod yn poeni am sut cewch eich trin gan y bobl o'ch cwmpas. Efallai eich bod wedi cael llond bol ar yr un drefn gyfarwydd. Neu efallai eich bod wrth eich bodd gyda'r holl gymeriadau gwahanol sydd yma o'ch cwmpas gyda'u straeon a'u hwyl.

Llefarydd 2: Dyna fel mae hi ym mhob cymuned. Mae bob amser ddwy ochr iddi - ochr hapus a difyr, ac ochr fwy negyddol. P'un a ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon arni, bydd hynny'n dibynnu llawer ar eich personoliaeth chi yn ogystal â'r gymuned ei hunan. Mae'r gair cymuned yn allweddol ym mywyd pob un ohonom, a dyma ein thema heddiw. I sawl cymuned rydych chi'n perthyn? Eich dosbarth, eich blwyddyn, eich ysgol a'ch teulu wrth gwrs, ond hefyd eich addoldy efallai, eich pentre' neu fro, grwpiau cymdeithasol, a'ch gwlad hefyd.

Llefarydd 3: Gofynnodd T.H. Parry-Williams, y bardd enwog o Ryd-ddu yng Ngwynedd, 'Beth yw'r ots gennyf i am Gymru? Damwain a hap yw fy mod yn ei libart yn byw...' Ond erbyn diwedd ei gerdd mae'n cyfaddef nad yw'n gallu dianc rhag ei wlad . Mae'n dweud 'Ond mi glywaf grafangau Cymru'n dirdynnu fy mron. Duw a'm gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon.'
Mae ein cymuned yn rhan ohonon ni. Fel mae'n dweud yn yr hysbyseb – You can take the boy out of Wales, but you can't take Wales out of the boy.'

Llefarydd 4: Un dyn enwog iawn a gariodd ddylanwad ei gymuned gydag e ar hyd ei oes fer oedd y bardd Dylan Thomas, o Abertawe. Eleni ry'n ni'n dathlu ei ganmlwyddiant. Cafodd ei eni yn 1914 a bu farw yn Efrog Newydd yn 1953, yn 39 oed. Yn ystod ei oes fer, ysgrifennodd beth o lenyddiaeth fwyaf yr ugeinfed ganrif. Roedd ei berthynas ag Abertawe, ei dref enedigol, yn gymysglyd. 'The ugly, lovely town' galwodd e'r lle. Mae'n debyg iddo ddweud unwaith 'The land of my fathers – well, my fathers can keep it.' Roedd ei olwg e ar wneud ei farc yn Llundain ac yn America. Ond 'nôl at ei wreiddiau yn Abertawe a gorllewin Cymru y byddai'n dod o hyd, naill i i fyw neu ar wyliau.

Llefarydd 5: Yn ei farddoniaeth, a'i waith ysgrifennu, mae'n hawdd gweld sut cafodd dinas Abertawe a'i deulu a'r bobl yno ddylanwad mawr arno. Roedd hefyd wrth ei fodd yn sir Gaerfyrddin yn ardal Talacharn. Dyma oedd yn ysbrydoliaeth iddo, ac er iddo grwydro o Gymru lawer yn ystod ei fywyd, roedd Cymru wastad yno yn ei waith creadigol. Ysgrifennai am y bobol, yr ardal, yr adeiladau, y bywyd bob dydd. Ni allai ddianc rhag hon. Gwrandewch ar lais enwog y bardd yn siarad am ei fro.
http://www.youtube.com/watch?v=Ce_qzuBPQpc – Dylan Thomas Reminiscences of Childhood. Gellir gwrando o'r dechrau hyd at tua 2.10– the Front...to which only young men travelled )

## MUNUD I FEDDWL

Llefarydd 6: Ar ddechrau diwrnod newydd o fod yn rhan o gymuned agos yr ysgol hon, gwerthfawrogwn y cyfle i fwynhau cwmni'r bobl o'n cwmpas, a'r cyfle i fod yn rhan o rywbeth mwy na ni ein hunain. Gofynnwn am y ddawn i sylwi ar eraill ac i werthfawrogi eu hamrywiaeth. Gofynnwn am fod yn ddiolchgar am ein hamgylchedd sy'n rhan o atgofion ein bywyd. Pan fyddwn yn gadael y gymuned hon a lledaenu ein hadenydd i'r byd mawr, gobeithio y byddwn yn cario rhyw damaid ohoni gyda ni - y rhannau gorau - fel ei bod yn parhau i'n cyfoethogi ar hyd ein bywyd.
Yn olaf, gofynnwn am allu gweld y gorau yn ein cymdeithas wastad - yn ein cartrefi, ein hysgol, ein bröydd a'n gwlad. Diolchwn amdanynt.